# Gwasanaeth Hunanatgyfeirio Awdioleg

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

Gall plant dros 16 oed nawr gwneud apwyntiad gydag uwch ymarferydd awdioleg sy’n gallu asesu, trin neu atgyfeirio cleifion i'r adran briodol yn ystod yr ymweliad cychwynnol, gan ddileu'r angen i weld y meddyg teulu.

Bydd yr Uwch Ymarferydd Awdioleg yn gweld cleifion sy'n dioddef o anawsterau clyw, tinitws trafferthus ac anhwylder cydbwysedd cyffredinol o'r enw BPPV – Fertigo Lleoliadol Parocsysmaidd Diniwed. Ar gyfer cynnal a chadw cymhorthion clyw, cysylltwch â'ch adran awdioleg leol.

Atgyfeirio ar-lein yw'r ffordd gyflymaf i'ch atgyfeiriad gyrraedd y ganolfan gyswllt a fydd yn trefnu eich apwyntiad.

Gallwch ymweld â'r wefan am ragor o wybodaeth ac i gael mynediad i'r ffurflen atgyfeirio yn www.biap.gig.cymru Chwilio am Awdioleg.

Fel arall, gallwch sganio'r cod QR

Ein nod yw cynnig gofal yn gynt ac yn nes at adref, gydag apwyntiadau’n cael eu cynnig ar hyn o bryd yn:

- Swyddfeydd Heol Waterloo, Llandrindod
- Ysbyty Cymunedol Bronllys, Bronllys
- Ysbyty Tref-y-clawdd, Tref-y-clawdd
- Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais, Ystradgynlais

Nid oes apwyntiadau ar gael ym mhob safle bob dydd.

Bydd apwyntiadau'n cael eu gwneud gan y ganolfan Therapïau ac nid eich adran awdioleg leol.

Os nad ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, bydd eich meddygfa yn gallu darparu ffurflen atgyfeirio papur a gallwch ei chwblhau a'i hanfon at:

Atgyfeiriadau Awdioleg
Y Ganolfan Therapïau,
Clafdy Sirol Maldwyn
Heol Llanfair
Y Drenewydd
SY16 2DW

**Peidiwch ag anfon atgyfeiriadau at yr adrannau Awdioleg.**